No.

**PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL**

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 26 Ebrill, 2023

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd J. Protheroe (Cadeirydd); Cynghorydd E. Goodjohn (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G.D.D. Carroll, P. Drake, C.P. Franks, S.J. Haines, H.C. Hamilton, S.M. Hanks, Dr. I.J. Johnson, B. Loveluck-Edwards ac N.J. Wood.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet Berfformiad ac Adnoddau), W.A. Hennessy a G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles).

948 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

949 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 15 Chwefror, 2023 a 15 Mawrth, 2023 fel cofnod cywir.

950 DATGANIADAU BUDDIANT –

Mynegodd y Cynghorydd C.P. Franks ddatganiad o ddiddordeb yn Eitem Rhif 5 yr Agenda – Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg (GGM) 2021/22. Natur y diddordeb oedd ei fod yn ymwneud â gwahanol sefydliadau yr oedd GGM yn eu cefnogi. Roedd gan y Cynghorydd Franks ganiatâd y Pwyllgor Safonau i siarad am faterion yn ymwneud â Llyfrgell a Chanolfan Weithgareddau Dinas Powys (yn cynnwys ceisiadau am grantiau) yn unig wrth eu trafod yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Cymuned Dinas Powys Roedd ganddo hefyd ganiatâd gan y Pwyllgor Safonau i siarad am faterion yn ymwneud â Llyfrgell a Chanolfan Weithgareddau Dinas Powys (yn cynnwys ceisiadau am grantiau) yn unig wrth eu trafod yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Cymuned Dinas Powys Oherwydd hyn, a chan nad oedd unrhyw fudd rhagfarnus, arhosodd y Cynghorydd Franks yn y cyfarfod wrth i’r eitem hon gael ei thrafod.

Mynegodd y Cynghorydd S.J. Haines ddatganiad o ddiddordeb yn Eitem Rhif 5 yr Agenda – Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg (GGM) 2021/22. Natur y diddordeb oedd ei fod yn aelod o Ganolfan Gymunedol Paul

Lewis yn Sain Tathan a allai fod â chysylltiadau â GGM. Roedd hefyd yn ymddiriedolwr i Fanc Dillad Sain Tathan. Gan nad oedd unrhyw fudd rhagfarnus, arhosodd y Cynghorydd Haines yn y cyfarfod wrth i'r eitem hon gael ei thrafod.

Mynegodd y Cynghorydd I.J. Johnson ddatganiad o ddiddordeb yn Eitem Rhif 5 yr Agenda – Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg (GGM) 2021/22. Natur y diddordeb oedd ei fod yn cynrychioli'r Cyngor ar Gymdeithas Gymunedol Gerddi Alexandra a oedd yn aelod o GGM. Yn unol â 19.3.3(b)(c) o Gyfansoddiad y Cyngor nid oedd hyn yn fudd rhagfarnus. Roedd hefyd yn gysylltiedig â Gŵyl Gelfyddydau'r Barri a oedd hefyd yn aelod o'r GGM. Roedd y Cynghorydd Dr Johnson hefyd wedi cael caniatâd gan y Pwyllgor Safonau i siarad a phleidleisio ar faterion yn ymwneud â'r celfyddydau a digwyddiadau ym Mro Morgannwg ac i siarad a phleidleisio ar faterion yn ymwneud â chanolfannau cymunedol sy'n cael eu trafod yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Tref y Barri. Oherwydd hyn, a chan nad oedd unrhyw fudd rhagfarnus, arhosodd y Cynghorydd Dr Johnson yn y cyfarfod wrth i'r eitem hon gael ei thrafod.

951 TROSOLWG O'R GWASANAETH CYSYLLTIADAU CWSMERIAID –

Rhoddodd y Rheolwr Gweithredol Cysylltiadau Cwsmeriaid amlinelliad o'r cyflwyniad i'r Pwyllgor. Trafodai'r Gwasanaeth Cysylltiadau Cwsmeriaid sydd wedi'i leoli yng nghanolfan gyswllt C1V y Cyngor. Rhoddwyd trosolwg cynhwysfawr i'r Pwyllgor o'r gwasanaeth, gyda ffocws ar y tri Amcan allweddol ar gyfer Adolygu Gwasanaethau.

- Gweithrediadau a Pherfformiad. Roedd hyn yn cynnwys manylion y galw yn ôl sianel/dull o gysylltu â gwasanaethau C1V (hy, e-bost, dros y ffôn, wyneb yn wyneb, hunanwasanaeth ar-lein ac ati) a chyflymder cyfartalog yr ateb. Roedd angen monitro hyn yn barhaus i gydbwyso ac ymateb i'r galw drwy reoli adnoddau'n effeithiol a sicrhau ymateb, rhyngweithiad a datrysiad mor gyflym ag sy'n bosib i breswylwyr y Fro. Roedd y Gwasanaethau'n cynnwys C1V, Gofal Cymdeithasol Oedolion, Teleofal, Cyswllt y Lluoedd Arfog, Costau byw ac ati. Roedd y rhain yn cael eu cefnogi gan wasanaeth cyfieithu Ieithoedd ac Iaith Arwyddo Prydain a mynediad dros y ffôn i breswylwyr â nam ar y golwg a'r lleferydd, ac roedd yr holl wasanaethau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- Cwsmer Digidol. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio technoleg ddigidol i ddatblygu a gwella gwasanaethau i breswylwyr, hy cofrestru genedigaethau, marwolaethau a phriodasau, archebion casglu sbwriel swmpus, ac ati.
- Blaenoriaethau ar gyfer y Dyfodol. Roedd y rhain yn cynnwys dyluniad sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr, trawsnewid gwasanaethau drwy ddefnyddio GovService, taliadau dros y ffôn a oedd yn cydymffurfio â safonau'r Diwydiant Cardiau Talu, dull o ymdrin ag ymholiadau dros y ffôn er mwyn lleihau amseroedd aros a gwella gwasanaethau, yn ogystal â gwaith cyffredinol i uwchraddio platfform canolfan gyswllt C1V, ac ystyried cyfleoedd i rannu adnoddau â Chynghorau eraill a Chymdeithas

Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) i ymateb i'r heriau o recriwtio a chadw staff â sgiliau technoleg ddigidol a sgiliau Cymraeg.

- Roedd aelodau'r Pwyllgor wedi cael gwahoddiad i ymweld â chanolfan gyswllt C1V a gweld y gwaith cysylltiadau cwsmeriaid a oedd yn digwydd, ac roedd y rhai a oedd eisoes wedi manteisio ar y cynnig yn dweud eu bod wedi cael darlun gwell o'r gwaith da sy'n cael ei wneud, a'r heriau o flaen y staff dan sylw.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddog, cafwyd y cwestiynau a'r sylwadau canlynol gan aelodau'r Pwyllgor:

- O ran sylwadau'r Cynghorydd Carroll ynghylch yr angen i osgoi dull 'clirio desg' a meintiol yn C1V er mwyn sicrhau bod profiadau/bodlonrwydd cwsmeriaid yn cael y prif sylw wrth iddo ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid, esboniwyd bod y Cyngor yn gwerthfawrogi mai'r hyn a oedd yn allweddol er mwyn i C1V lwyddo oedd bod cwsmeriaid a phreswylwyr yn cael profiadau ac yn derbyn gwasanaeth gwych.  O hyn allan, byddai hyn yn cynnwys mwy o ffocws ar anghenion defnyddwyr a chais am adborth yn dilyn galwadau.
- O ran ymholiad yr Is-Gadeirydd ynghylch diweddariadau a chyfathrebu pellach â defnyddwyr gwasanaethau C1V, ar ôl adrodd am broblem neu wneud cais am wasanaeth, esboniwyd bod C1V bob amser yn ceisio sicrhau y byddai preswylwyr yn cael gohebiaeth ac adborth pellach ynghylch y camau nesaf ar gyfer eu cais, a hefyd er mwyn helpu i reoli disgwyliadau preswylwyr, a byddai platfform GovService a gwasanaethau awtomataidd o gymorth i gyflawni hyn, yn enwedig lle bo gan ddefnyddwyr gwasanaeth gyfeiriad e-bost, ond byddai'n dal yn bosib siarad â rhywun yn uniongyrchol ar y ffôn. Byddai hyn yn gwella bodlonrwydd cwsmeriaid ac o gymorth i leihau'r angen i ddefnyddwyr gwasanaeth ffonio'n ôl i gael diweddariad.
- O ran sylwadau'r Cynghorydd Haines ynghylch manteision posibl gwasanaethau cwsmeriaid ar-lein i ddefnyddwyr gwasanaeth, ond yr angen i ymdrin â gwasanaethau dros y ffôn, sef testun mwyafrif y cwynion yr oedd y Cynghorydd wedi'u cael gan ei etholwyr, esboniwyd y byddai cynnydd posibl yn y defnydd o wasanaethau ar-lein o gymorth i wastatau unrhyw gynnydd sydyn yn y galw am wasanaethau ffôn C1V. Byddai hynny'n rhyddhau gweithwyr ffôn ac yn lleihau amseroedd aros ar y ffôn, gan eu galluogi i ganolbwyntio mwy ar geisiadau cymhleth a phroblemau lle'r oedd angen ymateb ac ymdriniaeth gan berson go iawn.
- Awgrymodd y Cynghorydd Dr. Johnson y gallai'r cyflwyniad fod yn sail ddefnyddiol ar gyfer sesiynau cynefino/hyfforddiant i Aelodau Etholedig yn y dyfodol, neu i godi ymwybyddiaeth.  Awgrymodd hefyd ddiweddariadau pellach ar y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran cysylltiadau cwsmeriaid a C1V, sef y cyswllt cyntaf yn ei hanfod a'r argraff gyntaf yr oedd llawer o breswylwyr yn ei chael o'r Cyngor a'i wasanaethau, ac i fesur beth oedd y cynrychioli llwyddiant i C1V yn y meysydd hyn, drwy ddefnyddio metrigau perfformiad yn gysylltiedig  â bodlonrwydd cwsmeriaid ac eraill.  Cyfeiriodd hefyd at y cyfleoedd am swyddi amser llawn a rhan-amser i ddisgyblion hŷn mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn y Fro, a gofynnodd am ragor o fanylion ynghylch y Gwasanaeth Tanysgrifio Gwastraff Gardd, y cyfeiriwyd ato yn y

cyflwyniad. Mewn ymateb i hyn, dywedwyd bod y Cyngor wedi dechrau ymgysylltu â'r newydd ag ysgolion cyfrwng Cymraeg ar ôl y pandemig, ac o ran gwasanaethau Gwastraff Gardd, roedd C1V yn cadw cyswllt agos â chydweithwyr o'r Gwasanaeth Rheoli Gwastraff i gasglu'r gofynion, ac roedd y gwasanaeth hefyd wedi'i ymgorffori yn y system taliadau cyfalaf.

- Ychwanegodd yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau ei bod yn bwysig sicrhau gwasanaeth prydlon i breswylwyr, ond yn bwysicach na hynny fod pob problem a chais yn cael eu datrys yn llwyddiannus fel bo'r preswylwyr a defnyddwyr gwasanaeth yn fodlon. Cyfeiriodd yr Arweinydd hefyd at lwyddiannau C1V, gan gynnwys rhoi staff arbenigol ar waith i ymdrin â heriau allweddol o flaen y Cyngor, hy, defnyddiwyd swyddog Rheoli Gwastraff profiadol i dderbyn galwadau gan breswylwyr ynghylch y newidiadau diweddar i'r trefniadau ailgylchu, ac roedd hynny wedi helpu i leihau cyfraddau diffyg cydymffurfio. Soniwyd hefyd am y gwasanaethau ardderchog a ddarperir gan y tîm Teleofal (a oedd wedi'i leoli o fewn C1V) yn ogystal â manteision posibl y gwelliannau digidol a thechnolegol yr oedd C1V yn eu cyflawni.
- Awgrymodd yr Is-Gadeirydd y dylai'r Pwyllgor dderbyn adroddiad pellach mewn chwe mis er mwyn monitro gwelliannau a datblygiadau ac ystyried recriwtio 'Hyrwyddwyr Gwasanaeth Cwsmeriaid' o bob rhan o'r Cyngor i roi cefnogaeth dros dro pan fyddai'n arbennig o brysur. Mewn ymateb i hyn, byddai diweddariadau pellach yn cael eu rhoi i'r Pwyllgor, ac roedd hi hefyd yn bwysig cyfathrebu mor eang ag sy'n bosibl ynghylch gwaith a oedd yn ymwneud â chysylltiadau cwsmeriaid.
- Awgrymodd y Cadeirydd y dylai'r holl Aelodau Etholedig gael y cyfle i ymweld â chanolfan C1V a gweld gwaith y Gwasanaeth Cysylltiadau Cwsmeriaid.

Ar ôl ystyried y cyflwyniad, penderfynodd y Pwyllgor Craffu:

ARGYMHELLWYD –

(1) BOD C1V yn ystyried cynnig cyfle i bob Aelod Etholedig ymweld â'u Canolfan Gwasanaethau Cysylltiadau Cwsmeriaid.

(2) BOD adroddiad pellach neu ddiweddariad yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor ar y cynnydd sy'n cael ei wneud gyda'r Gwasanaeth Cysylltiadau Cwsmeriaid ymhen chwe mis.

<u>Rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1) Er mwyn rhoi cyfle i Aelodau Etholedig weld y gwaith sy'n cael ei wneud a'r cynnydd a wneir gan C1V o ran cysylltiadau cwsmeriaid a chefnogaeth.

(2) Er mwyn hysbysu'r Pwyllgor am y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran cysylltiadau cwsmeriaid a chymorth yn C1V.

952 ADRODDIAD BLYNYDDOL GWASANAETHAU GWIRFODDOL MORGANNWG (GGM) 2021/22 (CYF) –

Cafodd yr eitem a gyfeiriwyd o gyfarfod Cyd-bwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol ar 3 Ebrill, 2023, fel yr oedd wedi'i chynnwys ar yr agenda, ei chyflwyno gan Rachel Connor, cynrychiolydd o Wasanaethau Gwirfoddol Morgannwg (GGM) a roddodd amlinelliad i'r Aelodau o waith a chyflawniadau GGM, mewn partneriaeth â'r Cyngor, dros 2021/22:

- Roedd GGM, fel corff ambarél, yn cefnogi'r trydydd sector neu'r sector gwirfoddol ym Mro Morgannwg, er mwyn helpu i sicrhau y gallai'r grwpiau hynny gyflenwi gwasanaethau allweddol yn effeithiol i gymunedau a phreswylwyr lleol. Roedd yr aelodaeth yn cynnwys oddeutu 770 o sefydliadau cymunedol.
- Er gwaethaf yr heriau parhaus yn gysylltiedig â COVID-19, roedd GGM wedi parhau i weithredu'n effeithiol, gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a thechnoleg digidol a phlatfformau i allu parhau i ymgysylltu â'r trydydd sector a chymunedau lleol, ac i sicrhau bod ganddynt fynediad parhaus at gyllid a mathau eraill o gymorth, hy, drwy System Rheoli Gwirfoddolwyr Cymru Gyfan a Chyfleuster Chwilio am Gyllid Cymru Gyfan, a oedd yn cael ei alw'n System Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid.
- Roedd GGM hefyd wedi parhau i ddarparu rhai gwasanaethau un wrth un, fel gwybodaeth ac arweiniad ymarferol i gyrff y trydydd sector i'w helpu i weithredu'n gyfreithlon ac effeithlon, a'u helpu i ddatblygu syniadau a phrosiectau. Roedd y GGM hefyd yn cynnig gwasanaethau dylunio ac argraffu cost isel i sefydliadau'r trydydd sector.
  - Roedd gwasanaeth cyllid a gwybodaeth GGM wedi rhoi cymorth i 275 o grwpiau drwy gydol y flwyddyn, ac adroddwyd bod £785,000 o gyllid wedi'i sicrhau o ganlyniad uniongyrchol i'r cyngor a'r wybodaeth a roddwyd gan GGM.
  - Roedd y GGM yn darparu hyfforddiant (a gafodd ei symud ar-lein yn bennaf yn ystod y pandemig) ac yn gweithio mewn partneriaeth â'r Awdurdod Lleol, y Gwasanaethau Iechyd a hefyd y trydydd sector.
  - Roedd GGM hefyd wedi gwneud llawer o waith yn gysylltiedig â gwirfoddoli a lleoli gwirfoddolwyr mewn prosiectau allweddol i gymunedau lleol, yn ogystal ag ymgysylltu â grwpiau ieuenctid neu gysylltiedig, ac roedd y Grant Dan Arweiniad Ieuenctid wedi helpu sefydliadau lleol i gynnig mwy o gyfleoedd i bobl ifanc wirfoddoli yn y Fro.
  - Roedd agweddau eraill y cyfeiriwyd atynt yn cynnwys gwaith GGM tuag at ddod yn sefydliad dementia gyfeillgar, a'r defnydd o CF61, Tŷ Illtud a Chanolfan Gymuned Sant Paul fel mannau cymunedol/GGM.

Ar ôl cyflwyno'r eitem a gyfeiriwyd a'r adroddiad, codwyd y cwestiynau a'r sylwadau canlynol gan y Pwyllgor:

- Ar gais y Cynghorydd Dr Johnson am ddiweddariad ar y gwaith gwirfoddoli a gwaith cymunedol sy’n cael ei wneud yn Hyb Gibbonsdown a hen Westy’r Castell ar Jewel Street yn y Barri, esboniwyd bod GGM wedi cadw gofod yn y Ganolfan Fenter Gymunedol yn Gibbonsdown, er mwyn cynnig cyfleoedd gwirfoddoli, cyngor, hyfforddiant, cyrsiau, gwasanaeth argraffu, dosbarthu a

chasglu a chyfarfodydd o'r safle hwnnw. Roedd yr un gwasanaethau'n cael eu cynnig ym mhob un o dri safle GGM, ac roedd gwasanaethau tebyg hefyd yn cael eu darparu yn Llyfrgell y Barri. O ran datblygiad Gwesty'r Castell, er gwaethaf yr ymrwymiad i ddatblygu'r eiddo hwn, penderfynwyd nad oedd gwneud hynny'n ddichonadwy yn ariannol, oherwydd maint y costau cysylltiedig, ac na ellid cyfiawnhau hynny yn nhermau'r manteision i'r gymuned ehangach.

- O ran ymholiad y Cynghorydd Hanks ynghylch derbyn cylchlythyr chwarterol GGM, esboniwyd bod y cylchlythyr yn cael ei rannu â'r Gwasanaethau Democrataidd a oedd wedyn yn ei anfon allan at yr holl Aelodau Etholedig.
- O ran ymholiad y Cynghorydd Loveluck-Edwards ynghylch effaith yr argyfwng costau byw ar wirfoddoli, esboniwyd er bod aelodaeth GGM yn parhau i fod yn uchel, roedd nifer o Aelodau heb fod yn gallu talu am aelodaeth mwyach ac wedi symud i'r categori aelodaeth gysylltiol oherwydd hynny, ac roedd rhai gwasanaethau a grwpiau cymorth hefyd wedi dirwyn i ben. Er gwaethaf y cynnydd mawr mewn gwirfoddolwyr yn ystod y Pandemig, roedd y niferoedd wedi gostwng yn ôl i'r lefelau tebyg i'r cyfnod cyn y Pandemig. Roedd y posibilrwydd na allai cyrff trydydd sector ariannu a chefnogi gwirfoddolwyr drwy dalu treuliau llawn hefyd yn bryder mawr, yn ogystal â gallu'r cyrff hynny i dalu biliau cyfleustodau ar gyfer canolfannau a mannau cymunedol, a'u hatebolrwydd yn hynny o beth. Byddai'n bwysig diogelu adeiladau cyhoeddus i'r dyfodol am y tymor hwy, er mwyn lleihau'r baich o ran gwresogi ac ati. Gellid gweld effaith yr argyfwng costau byw hefyd yn y cynnydd yn y defnydd o fanciau bwyd lleol, gyda nifer cynyddol o'r defnyddwyr yn bobl mewn gwaith.
- Dywedodd y Cynghorydd Dr. Johnson fod angen i'r Cyngor adolygu ei waith gyda'r trydydd sector er mwyn helpu i gyflawni blaenoriaethau adfer strategol, adeiladu ar y gwaith ardderchog a gyflawnwyd yn ystod y Pandemig a chryfhau datblygu cynaliadwy, yn ogystal ag ailfywiogi Cyd-bwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol. Esboniodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol fod llawer iawn o waith ar y gweill yn y maes hwn, ynghyd ag ymgysylltu pellach â GGM, i gryfhau'r 'compact' â'r trydydd sector ac i ystyried sut i ddefnyddio'r Cyd-bwyllgor mewn modd mwy effeithiol, hy, galluogi'r Pwyllgor i ganolbwyntio ar yr heriau hollbwysig yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol bob blwyddyn. Yn ddiweddar, roedd y Cyngor, ar y cyd â GGM, wedi gallu manteisio ar gyllid y loteri i ehangu'r pantri bwyd a oedd yn gweithredu yn CF61.
- O ran ymholiad dilynol y Cynghorydd ynghylch arolygon effeithlonrwydd ynni canolfannau cymuned yn y Fro yn rhan o Brosiect Sero, roedd cyllid wedi'i dderbyn gan Lywodraeth Cymru i gefnogi hyn, a byddai manylion pellach yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor. Yn ogystal ag eiddo yr oedd y Cyngor yn berchen arno, roedd rhai canolfannau cymuned a oedd yn eiddo i GGM wedi'u cynnwys yn yr adolygiad.

Ar ôl ystyried yr eitem a gyfeiriwyd a'r adroddiad, penderfynodd y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi'r cyfeirnod ac Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg (GGM) 2021/22.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys y geirda, yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

953 STRATEGAETH POBL A DOGFENNAU ATEGOL (CYF) –

Cafodd yr eitem a gyfeiriwyd o gyfarfod y Cabinet ar 27 Chwefror, 2023, fel yr oedd wedi'i chynnwys ar yr agenda, ei chyflwyno gan y Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Trefniadol. Roedd yr eitem wedi'i chyfeirio er mwyn i'r Pwyllgor ystyried yr adroddiad a'r atodiadau yn rhan o'r broses ymgynghori chwe wythnos. Dyma'r pwyntiau allweddol:

- Roedd y Strategaeth Pobl wedi'i halinio'n agos â Chynllun Corfforaethol Cyngor Bro Morgannwg, y Cynllun Cydraddoldeb a Phrosiect Sero, er mwyn pennu'r cyfeiriad strategol a chynorthwyo staff y Cyngor i fod ar eu gorau wrth gyflawni'r amcanion llesiant yn y cymunedau yr oedd y Cyngor yn eu gwasanaethau.
- Roedd y Strategaeth wedi'i rhannu i dair thema allweddol:
    - Ailddylunio er Ymatebolrwydd
    - Sbarduno Profiadau Cyflogeion
    - Ymdrechu i Berfformio'n Dda
- Roedd y dogfennau polisi ategol, a oedd ynghlwm wrth yr eitem a gyfeiriwyd a'r adroddiad, wedi'u halinio â'r Strategaeth ac yn cynnwys:
    - Cynllun Gweithredu Gweithlu Strategol
    - Strategaeth Gweithio Hybrid
    - Cynllun Dysgu a Datblygu
    - Polisi Gwirfoddolwyr
- Roedd yr ymgynghoriad ar lunio’r Strategaeth yn cynnwys ystod eang o grwpiau gan gynnwys Undebau Llafur, y Cyd-fforwm Ymgynghori, y gwahanol rwydweithiau amrywiaeth a staff, ac ati.

Ar ôl cyflwyno'r eitem a gyfeiriwyd a'r adroddiad, codwyd y cwestiynau a'r sylwadau canlynol gan y Pwyllgor:

- O ran ymholiad y Cynghorydd Haines ynghylch mesur perfformiad staff, esboniwyd bod y Cynllun Arfarnu Perfformiad Prif Swyddogion wedi cael ei gyflwyno'n ddiweddar, ac y byddai hynny'n golygu gwaith i fonitro eu perfformiad yn agos, yn ogystal ag adolygiad cymheiriaid a chylch cyfan. Byddai'r system hon yn cael ei hehangu i gynnwys yr holl staff (heblaw addysg) yn y dyfodol.
- O ran cwestiwn dilynol y Cynghorydd ynghylch gweithio hybrid a phwysigrwydd cynnwys effaith hynny o ran carbon, ac amlygu heriau (hy, ynysigrwydd) yn ogystal â manteision y dull hwn o weithio, esboniwyd y byddai'n heriol mesur allbwn carbon gweithio hybrid. Roedd y dull hwn o weithio o gymorth i leihau cymudo i'r gwaith ac yn ffordd o resymoli gofod swyddfa, yr oedd y naill a'r llall yn helpu i leihau ôl troed carbon y Cyngor. Yn nhermau'r heriau'n gysylltiedig â gweithio hybrid, roedd y Strategaeth Gweithio Hybrid yn pwysleisio'r angen i gydweithio ac i annog staff i fynd i'r

gweithle i'r perwyl hwnnw, ac i liniaru'r ymdeimlad o ynysigrwydd ac ati drwy weithgareddau llesiant eraill y Cyngor.

- Pwysleisiodd y Cadeirydd fod angen cael yr hyblygrwydd hwn (drwy weithio hybrid) i gefnogi ymdrechion i recriwtio a chadw staff, a bod gweithio hybrid yn gwbl wirfoddol, ac na fyddai'n berthnasol i bob rôl o fewn y cyngor, lle gellid cynnig mathau eraill o hyblygrwydd o ran gwaith yn lle hynny.
- Teimlai'r Is-Gadeirydd y dylid ymgysylltu â'r Gwasanaeth Ieuenctid yn rhan o'r ymgynghoriad ar y Strategaeth, gyda'r posibilrwydd o gydweithio â'r Gwasanaeth hwnnw, hy, gellid defnyddio prentisiaethau i bobl ifanc a dangos i bobl ifanc y cyfleoedd am swyddi yn y sector llywodraeth leol, a byddai'r Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Trefniadol yn ystyried hynny.
- O ran ymholiadau eraill yr Is-Gadeirydd ynghylch data cymharol ar staff a diweddariadau ynghylch Fframwaith Dysgu'r Staff, byddai'r data cymharol yn cael eu datblygu, ac roedd y system Oracle Fusion newydd o gymorth gyda hyn, ac o ran dysgu'r staff, roedd rhaglen gynefino 'Croeso i'r Fro' wedi cael ei chyflwyno i staff newydd, ac roedd gwybodaeth ofynnol am iechyd a diogelwch hefyd wedi cael ei hychwanegu at system dysgu ar-lein y Cyngor.

Ar ôl ystyried yr eitem a gyfeiriwyd a'r adroddiad, penderfynodd y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD –

(1) EU BOD fel rhan o'r broses ymgynghori, hefyd yn cysylltu â’r Gwasanaeth Ieuenctid er mwyn cael eu sylwadau a'u barn ar y Strategaeth, yn ogystal â chydweithredu posibl, h.y. y defnydd posibl o brentisiaethau pobl ifanc ac i ddangos i bobl ifanc y cyfleoedd swyddi yn y sector llywodraeth leol.

(2) BOD y sylwadau canlynol yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Cabinet fel rhan o adroddiad yn y dyfodol sy'n adlewyrchu ar yr ymgynghori ehangach gyda staff a sefydliadau partner:

- Yr angen i dynnu sylw at y manteision a'r heriau ynghylch gweithio hybrid, yn ogystal ag archwilio mesur effaith carbon y dull hwn o weithio.
- Roedd hefyd yn bwysig i Gyngor Bro Morgannwg amlygu ei bolisïau gwaith ystwyth a hybrid, er mwyn cynnal ei allu i gystadlu a'i atyniad o ran recriwtio a chadw staff y Cyngor.

<u>Rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1) Er mwyn ymgynghori â'r Gwasanaeth Ieuenctid a phobl ifanc fel rhan o'r Strategaeth a helpu i sicrhau recriwtio a chadw staff posibl y Cyngor yn y dyfodol trwy brentisiaethau, ac ati er mwyn helpu i lywio ystyriaeth y Cabinet o'r Strategaeth.

(2) Rhoi gwybod i'r Cabinet am y sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor fel rhan o'u hystyriaeth o fersiwn derfynol y Strategaeth Pobl a dogfennau cysylltiedig.

954 ADRODDIAD MONITRO CYDRADDOLDEB BLYNYDDOL 2021-2022 (CYF) –

Cafodd yr eitem a gyfeiriwyd o gyfarfod y Cabinet ar 16 Chwefror, 2023, fel yr oedd wedi'i cynnwys ar yr agenda, ei chyflwyno gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol, er mwyn i'r Pwyllgor ystyried yr Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol a'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r amcanion cydraddoldeb yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor.

I esbonio'r cefndir, roedd y Ddeddf Cydraddoldeb yn gosod dyletswyddau penodol ar Awdurdodau Lleol, gan gynnwys y gofyniad i gyhoeddi adroddiad blynyddol.

Roedd yr adroddiad yn esbonio pa mor effeithiol fu'r Cyngor wrth gyflawni'r deg amcan yn y Cynllun Cydraddoldeb cyffredinol. Roedd hefyd yn darparu rhywfaint o wybodaeth fanwl am gyflogaeth, gan gynnwys gwybodaeth am gyflogau, am gaffael ac am hyfforddiant, hy ar wrth-hiliaeth. Edrychai hefyd ar agweddau fel sut y gallai'r Cyngor ddatblygu prosesau i ymdrin â throseddau casineb, trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, yn ogystal â chefnogi pobl â nodweddion gwarchodedig ac ati.

Ar ôl cyflwyno'r eitem a'r adroddiad, codwyd y cwestiynau a'r sylwadau canlynol gan y Pwyllgor:

- Cododd y Cynghorydd Carroll bryderon ynghylch defnyddio Stonewall a’i Fynegai Cydraddoldeb y Gweithlu er mwyn rhoi arweiniad a meincnodau i'r Cyngor i'w helpu i gyflawni ei amcanion cydraddoldeb ac amcanion cysylltiedig, yn sgil sylwadau eithafol a dadleuol yr oedd y sefydliad wedi'u gwneud yn y gorffennol. Yn wyneb hyn, gofynnai a ddylai'r Cyngor ailystyried pa mor briodol oedd y berthynas hon, a pha mor briodol oedd defnyddio'r deunydd hwn. Mewn ymateb i hyn, esboniwyd bod y Cyngor yn aelod o nifer o wahanol rwydweithiau a oedd yn cefnogi amrywiaeth o wahanol nodweddion gwarchodedig, a phrif bwrpas ei aelodaeth o Stonewall oedd gallu defnyddio Mynegai Cydraddoldeb y Gweithlu. Roedd hyn yn creu strwythur a oedd yn helpu'r Cyngor i ddarparu amgylchedd cynhwysol, ond lle'r oedd y Cyngor hefyd yn rhoi ystyriaeth i ystod eang o safbwyntiau a thystiolaeth i ddod i'w benderfyniadau ei hun yn y maes hwn. Mewn perthynas â hyn, gofynnodd yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Adnoddau Corfforaethol i unrhyw bryderon penodol gael eu cyfeirio i'w sylw mewn ysgrifen er mwyn gallu eu trafod, a phwysleisiodd ar yr un pryd fod angen i'r Cyngor gydweithio â chyrff eraill er mwyn helpu i wella ei gefnogaeth a'i wasanaethau i grwpiau amrywiol.
- O ran cwestiwn dilynol y Cynghorydd ynghylch a oedd y Cyngor yn talu am aelodaeth/gwasanaethau yn gysylltiedig â Stonewall, cadarnhawyd bod y Cyngor yn talu i danysgrifio i Stonewall.
- Cododd yr Is-Gadeirydd gwestiwn ynghylch y cynnydd a wnaed yn gysylltiedig â'r bwlch rhwng cyflogau'r rhywiau, gan ei bod yn ymddangos fel pe bai'r bwlch hwnnw wedi cynyddu rhywfaint yn 2021/22. Mewn ymateb i hyn, dywedwyd bod y cynnydd hwn yn cael ei fonitro'n ofalus o hyn allan, a chamau'n cael eu cymryd i leihau'r bwlch. Yn nhymor yr haf

2022, roedd y Cyngor wedi mabwysiadu'r Cyflog Byw Gwirioneddol, a oedd wedi cael effaith gadarnhaol ar staff y Cyngor a oedd ar gyflogau is, gan gynnwys nifer sylweddol o fenywod yn eu plith. Dylai hyn gael ei adlewyrchu mewn adroddiadau i'r Pwyllgor yn y dyfodol.

- Dymunai'r Is-Gadeirydd a'r Cynghorydd Loveluck-Edwards bwysleisio nad oedd yr adroddiad yn trafod dilysrwydd Stonewall fel sefydliad elusennol cydnabyddedig, ond yn hytrach y gwaith cadarnhaol a wnaed gan y Cyngor ar y cyd â grwpiau amrywiaeth a chynghreiriaid a oedd yn gallu dewis pa sefydliadau yr oeddent am ymgynghori â nhw i gyrraedd eu nodau.
- Dymunai'r Cynghorydd Haines bwysleisio pa mor bwysig oedd hi i Aelodau allu gwneud sylw, trafod a chodi eu pryderon ynghylch y materion uchod yn agored, ac waeth a oeddent yn perthyn i'r grwpiau yr oedd yr adroddiad yn effeithio arnynt yn uniongyrchol ai peidio.

Ar ôl ystyried yr eitem a gyfeiriwyd a'r adroddiad, penderfynodd y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD – Y DYLID nodi'r cyfeiriad a'r Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol 2021 – 2022 fel y'u disgrifir yng nghorff yr adroddiad ac yn Atodiad A.

<u>Rheswm dros yr argymhelliad</u>

Gan ystyried cynnwys y geirda, yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.